**YSTYRIAETH GAN Y CABINET**

1. Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Gynigion y Gyllideb ar 21 Chwefror 2014. Ar ôl ystyried sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn fel sy'n ofynnol dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn:

   1.0 Cymeradwywyd y newidiadau i ffioedd a thaliadau fel y'u nodir yn Atodiad 10 i'r adroddiad hwn.

   2.0 Caiff awdurdod ei ddirprwyo i'r cyfarwyddwr priodol, gan ymgynghori â'r Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Datblygu Economaidd, i newid ffioedd a thaliadau neu gyflwyno rhai newydd yn ystod y flwyddyn.

   3.0 Caiff rhenti pob annedd Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys hostelau a garejys) eu cynyddu yn unol â'r cynnydd a awgrymir gan Lywodraeth Cymru.

   4.0 Cymeradwywyd yr holl daliadau gwasanaeth ar gyfer lesddeiliaid fel y'u nodir yn Atodiad 10(b) i'r adroddiad hwn.

   5.0 Cymeradwywyd y ffi rheoli ar gyfer lesddeiliaid fel y'i nodir yn Atodiad 10(b) i'r adroddiad hwn.

   6.0 Bydd pob cynnydd mewn rhent y Cyfrif Refeniw Tai yn weithredol o 7 Ebrill 2014.

   7.0 Nodir yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**CYNNIG GAN Y CABINET**

Argymhellir bod y Cyngor, ar ôl ystyried sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar gadernid y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn fel sy'n ofynnol dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb, yn gwneud y canlynol:

1.0 Yn cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw, y Gyllideb Cyfalaf a'r Gyllideb Refeniw Tai, gan gynnwys pob cynnig, ac yn cynyddu'r Dreth Gyngor gan 3.97% fel y'i nodir yn yr adroddiad hwn, a bod y Cyngor yn pennu'r telerau canlynol.

2.0 Noder yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2013 cyfrifodd y Cyngor y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

   a) 138,759 oedd y swm a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor)

(Cymru) 1995, fel y'i diwygiwyd, fel ei sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

b)

| | |
|---|---|
| Llys-faen | 2,260 |
| Pentyrch | 3,131 |
| Radur | 3,589 |
| Sain Ffagan | 1,184 |
| Pentref Llaneirwg | 1,256 |
| Tongwynlais | 804 |

Yr uchod oedd y symiau a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau ei sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y mae eitemau arbennig yn perthyn iddynt.

2.1 Cytunwyd bod y symiau canlynol nawr yn cael eu cyfrifo gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn unol ag adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) Swm cyfunol y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (d) (gan gynnwys praeseptau Cynghorau Cymuned gwerth cyfanswm o £256,300).

£1,022,235,537

b) Swm cyfunol y symiau a amcangyfrifir gan y Cyngor ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) a (c).

£451,123,700

c) Y swm y mae swm cyfunol 2.1(a) yn fwy na swm cyfunol 2.1(b) uchod a gyfrifwyd yn unol ag Adran 32(4) fel gofyniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

£571,111,83
7

d) Swm cyfunol y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy ar gyfer y flwyddyn i mewn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas â'r Grant Cynnal Refeniw, Ardrethi Annomestig a ailddosbarthwyd, a Grant Ychwanegol.

£435,985,970

e) Swm 2.1(c) uchod llai'r swm yn 2.1(d) (net o'r swm ar gyfer gostyngiadau yn ôl disgresiwn o £250,000), oll wedi'u rhannu â'r swm yn 2.0(a) uchod, a gyfrifwyd yn unol ag Adran 33(1) fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

£975.62

f) Swm cyfunol yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn Adran 34(1).

£256,300

g) Y Swm yn 2.1(e) uchod llai'r canlyniad a geir drwy rannu'r swm yn 2.1(f) uchod gan y swm yn 2.0(a) uchod, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor nad yw unrhyw eitemau arbennig yn perthyn iddynt.

£973.77

h) Y symiau a geir drwy ychwanegu i'r swm yn 2.1(g) uchod symiau'r eitemau arbennig sy'n perthyn i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a restrir isod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2.0(b) uchod, wedi'u cyfrifo yn unol ag Adran 34(3) fel symiau sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y mae eitemau arbennig yn perthyn iddynt.

| | £ |
|---|---|
| Llys-faen | 988.81 |
| Pentyrch | 999.32 |
| Radur | 995.78 |
| Sain Ffagan | 988.97 |
| Pentref Llaneirwg | 994.71 |
| Tongwynlais | 997.40 |

i) Y symiau a geir drwy rannu'r symiau yn 2.1(g) a 2.1(h) uchod gan y rhif sy'n gymwys, yn y gyfran a nodir yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Prisio) (Cymru) 2003, i anheddau a restrir mewn band prisio penodol, wedi'u rhannu gan y rhif sy'n gymwys yn y gyfran honno i anheddau a restrir ym mand prisio D a gyfrifwyd yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau anheddau a restrir mewn bandiau prisio gwahanol.

**BANDIAU PRISIO**

| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llys-faen | 659.21 | 769.08 | 878.94 | 988.81 | 1,208.55 | 1,428.29 | 1,648.02 | 1,977.63 | 2,307.23 |
| Pentyrch | 666.21 | 777.25 | 888.28 | 999.32 | 1,221.39 | 1,443.47 | 1,665.53 | 1,998.64 | 2,331.75 |
| Radur | 663.85 | 774.50 | 885.14 | 995.78 | 1,217.06 | 1,438.35 | 1,659.64 | 1,991.56 | 2,323.49 |
| Sain Ffagan | 659.32 | 769.20 | 879.08 | 988.97 | 1,208.74 | 1,428.52 | 1,648.29 | 1,977.95 | 2,307.60 |
| Pentref Llaneirwg | 663.14 | 773.67 | 884.18 | 994.71 | 1,215.75 | 1,436.81 | 1,657.85 | 1,989.42 | 2,320.99 |
| Tongwynlais | 664.93 | 775.76 | 886.58 | 997.40 | 1,219.04 | 1,440.69 | 1,662.34 | 1,994.80 | 2,327.27 |
| Pob rhan | 649.1 | 757.38 | 865.57 | 973.77 | 1,190.1 | 1,406.5 | 1,622.9 | 1,947.5 | 2,272.1 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| arall o ardal y Cyngor | 8 | | | | 6 | 6 | 5 | 4 | 3 |

2.2 Noder ar gyfer y flwyddyn 2013/14, mae Awdurdod Heddlu De Cymru wedi datgan y symiau canlynol mewn praeseptau a roddir i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

**BANDIAU PRISIO**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| 126.89 | 148.04 | 169.19 | 190.34 | 232.64 | 274.94 | 317.23 | 380.68 | 444.13 |

2.3 Ar ôl cyfrifo'r swm cyfunol ym mhob achos o'r symiau yn 2.1(i) a 2.2 uchod, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2013/14 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

Rhan o Ardal y Cyngor
**BANDIAU PRISIO**

| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llys-faen | 786.10 | 917.12 | 1,048.13 | 1,179.15 | 1,441.19 | 1,703.23 | 1,965.25 | 2,358.31 | 2,751.36 |
| Pentyrch | 793.10 | 925.29 | 1,057.47 | 1,189.66 | 1,454.03 | 1,718.41 | 1,982.76 | 2,379.32 | 2,775.88 |
| Radur | 790.74 | 922.54 | 1,054.33 | 1,186.12 | 1,449.70 | 1,713.29 | 1,976.87 | 2,372.24 | 2,767.62 |
| Sain Ffagan | 786.21 | 917.24 | 1,048.27 | 1,179.31 | 1,441.38 | 1,703.46 | 1,965.52 | 2,358.63 | 2,751.73 |
| Pentref Llaneirwg | 790.03 | 921.71 | 1,053.37 | 1,185.05 | 1,448.39 | 1,711.75 | 1,975.08 | 2,370.10 | 2,765.12 |
| Tongwynlais | 791.82 | 923.80 | 1,055.77 | 1,187.74 | 1,451.68 | 1,715.63 | 1,979.57 | 2,375.48 | 2,771.40 |
| Pob rhan arall o ardal y Cyngor | 776.07 | 905.42 | 1,034.76 | 1,164.11 | 1,422.80 | 1,681.50 | 1,940.18 | 2,328.22 | 2,716.26 |

.

2.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i wneud taliadau dan Adran 38 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 o Gronfa'r Cyngor fesul rhandaliadau cyfwerth ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015 mewn perthynas â'r praesept a godir gan Awdurdod Heddlu De Cymru o'r swm o £26,411,388.

2.5 Cytunwyd y caiff y Sêl Gyffredin ei gosod ar y Dreth Gyngor honno.

2.6 Cytunwyd i osod y Sêl Gyffredin ar y praeseptau ar gyfer Treuliau Iechyd Porthladd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 sef

| | £ |
|---|---|
| Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd | 158,235 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | 17,595 |

2.7 Cytunwyd bod hysbysiadau sy'n pennu'r Trethi Cyngor dan sylw a lofnodwyd gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

3.0 Cymeradwywyd y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2014/15, 2015/16 a 2016/17 gan ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 newid terfynau benthyca ac atebolrwydd hirdymor o fewn y terfyn awdurdodedig ar gyfer unrhyw flwyddyn.

4.0 Cymeradwywyd Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2014/15 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddiaeth) (Cymru) 2003 a diwygiadau dilynol.

5.0 Cymeradwywyd y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2014/15 a'r Polisi a ddiweddarwyd ar gyfer 2013/14.

6.0 Awdurdodwyd y Swyddog Adran 151 i godi pa arian bynnag a allai fod ei angen ar gyfer gwariant cyfalaf drwy fenthyciadau dros dro neu hirdymor o fewn y terfynau a amlinellwyd uchod, ac i ddwyn ymlaen neu oedi cynlluniau o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

**Y CABINET**
21 Chwefror 2014